



Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

Cofnod y Trafodion The Record of Proceedings

[Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu](#)

[The Culture, Welsh Language and
Communications Committee](#)

30/11/2016

[Agenda'r Cyfarfod](#)
[Meeting Agenda](#)

[Trawsgrifiadau'r Pwyllgor](#)
[Committee Transcripts](#)

Cynnwys
Contents

- 4 Cyflwyniad, Ymddiheuriadau, Dirprwyon a Datgan Buddiannau
Introductions, Apologies, Substitutions and Declarations of Interest
- 5 Ymchwiliad i Strategaeth y Gymraeg Ddrafft Llywodraeth Cymru:
Sesiwn Dystiolaeth 4
Inquiry into the Welsh Government's Draft Welsh Language Strategy:
Evidence Session 4
- 53 Papurau i'w Nodi
Papers to Note
- 53 Ymchwiliad i Strategaeth y Gymraeg Ddrafft Llywodraeth Cymru:
Sesiwn Dystiolaeth 5
Inquiry into the Welsh Government's Draft Welsh Language Strategy:
Evidence Session 5
- 74 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i Benderfynu Gwahardd y Cyhoedd
o'r Cyfarfod ar gyfer Eitem 7
Motion under Standing Order 17.42 to Resolve to Exclude the Public
from the Meeting for Item 7

Cofnodir y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynddi yn y pwyllgor. Yn ogystal, cynhwysir trawsgrifiad o'r cyfieithu ar y pryd. Lle y mae cyfranwyr wedi darparu cywiriadau i'w dystiolaeth, nodir y rheini yn y trawsgrifiad.

The proceedings are reported in the language in which they were spoken in the committee. In addition, a transcription of the simultaneous interpretation is included. Where contributors have supplied corrections to their evidence, these are noted in the transcript.

Aelodau'r pwyllgor yn bresennol
Committee members in attendance

Hannah Blythyn Bywgraffiad Biography	Llafur Labour
Dawn Bowden Bywgraffiad Biography	Llafur Labour
Suzy Davies Bywgraffiad Biography	Ceidwadwyr Cymreig Welsh Conservatives
Neil Hamilton Bywgraffiad Biography	UKIP Cymru UKIP Wales
Bethan Jenkins Bywgraffiad Biography	Plaid Cymru (Cadeirydd y Pwyllgor) The Party of Wales (Committee Chair)
Dai Lloyd Bywgraffiad Biography	Plaid Cymru The Party of Wales
Jeremy Miles Bywgraffiad Biography	Llafur Labour
Lee Waters Bywgraffiad Biography	Llafur Labour

Eraill yn bresennol
Others in attendance

Angela Jardine	Cyngor y Gweithlu Addysg Education Workforce Council
Gwilym Dyfri Jones	Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant The University of Wales Trinity Saint David
Hayden Llewellyn	Cyngor y Gweithlu Addysg Education Workforce Council
Daniel Tiplady	Cardiff Metropolitan University Prifysgol Metropolitan Caerdydd

Swyddogion Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn bresennol
National Assembly for Wales officials in attendance

Osian Bowyer	Gwasanaeth Ymchwil Research Service
Steve George	Clerc Clerk
Manon Huws	Cynghorydd Cyfreithiol Legal Adviser
Adam Vaughan	Dirprwy Glerc Deputy Clerk

Dechreuodd y cyfarfod am 09:15.

The meeting began at 09:15.

Cyflwyniad, Ymddiheuriadau, Dirprwyon a Datgan Buddiannau
Introductions, Apologies, Substitutions and Declarations of Interest

[1] **Bethan Jenkins:** Diolch yn fawr iawn. Rŷm ni'n dechrau'r cyfarfod ffurfiol, a chroeso i bawb. Nid oes ymddiheuriadau neu ddirprwyon yma heddiw. Os bydd larwm tân, dylai pawb adael yr ystafell drwy'r allanfeydd tân penodol a dilyn cyfarwyddiadau tywyswyr a'r staff. Ni ddisgwylir prawf heddiw. Dylai pawb droi eu ffonau symudol i fod yn dawel.

Bethan Jenkins: Thank you very much. We start the formal meeting, and welcome to everybody. There are no apologies or substitutions here today. In the event of a fire alarm, everyone should leave the room via the fire exits and follow instructions from the ushers and staff. An alarm is not expected today. Everyone should turn their mobile phones to silent.

[2] The National Assembly does operate bilingually, and headphones are available to hear simultaneous translation and to adjust the audio for people who are hard of hearing. Simultaneous translation is available on channel 1 and sound amplification on channel 0.

[3] Peidiwch â chyffwrdd y botymau sy'n o'ch blaen chi oherwydd y gall hyn amharu ar y

Do not touch any of the buttons on the microphones because this can disable the system, and ensure that

system, a gwnewch yn siŵr bod y the red light is on before speaking.
golau coch ymlaen cyn dechrau
siarad.

[4] A oes gan unrhyw fuddiannau Has anyone got any interests to
i'w datgan yma y bore yma? Na. declare this morning? No.

09:16

Ymchwiliad i Strategaeth y Gymraeg Ddrafft Llywodraeth Cymru:
Sesiwn Dystiolaeth 4
Inquiry into the Welsh Government's Draft Welsh Language Strategy:
Evidence Session 4

[5] **Bethan Jenkins:** Eitem 2: **Bethan Jenkins:** Item 2: inquiry into
ymchwiliad i strategaeth yr iaith the Welsh Government's draft Welsh
Gymraeg ddrafft Llywodraeth language strategy—evidence session.
Cymru—sesiwn dystiolaeth. Mae We have witnesses here today—
gennym ni dystion yma heddiw— Gwilym Dyfri Jones, associate pro
Gwilym Dyfri Jones, dirprwy is- vice-chancellor at the University of
ganghellor cysylltiol, Prifysgol Cymru Wales Trinity Saint David—welcome
y Drindod Dewi Sant—croeso i chi—a to you—and Daniel Tiplady, Welsh-
Daniel Tiplady, rheolwr darpariaeth medium provision manager at Cardiff
cyfrwng Cymraeg Prifysgol Metropolitan University—welcome to
Metropolitan Caerdydd—a chroeso i you as well.
chi hefyd.

[6] **Mr Tiplady:** Diolch yn fawr. **Mr Tiplady:** Thank you.

[7] **Bethan Jenkins:** Mae yna nifer **Bethan Jenkins:** There are a number
o gwestiynau gennym ni fel Aelodau of questions that we have as
Cynulliad, ac rŷm ni'n mynd i fynd i Members, and we're going to go
gwestiynau yn syth. Ac felly, i straight to questions. And so, to start
gychwyn, roeddwn i jest eisiau with, I just wanted to ask what you
gofyn—beth ydych chi'n meddwl o'r think of the Welsh Government's
amcan llywodraethol o gael 1 filiwn o stated aim of reaching 1 million
siaradwyr erbyn 2050? Pa fath o Welsh speakers by 2050. What sort of
newidiadau yr ydych chi'n credu sydd changes do you think are needed on
eu hangen yn ymarferol er mwyn a practical level to try to realise that,
ceisio gwireddu hynny? Os oes and if you have any examples along
enghreiffitiau gyda chi ar hyd y ffordd the way of how this could happen,

o sut y gall hyn ddigwydd, yna plis rhannwch nhw gyda ni fel pwyllgor. Ond beth, yn reddfoll, yw eich barn ynglŷn â'r amcan yma yn benodol? Diolch yn fawr.

then please share them with us as a committee. So, instinctively, what are your views on this aim specifically? Thank you.

[8] **Mr Jones:** Iawn. Wel, yn y lle cyntaf, diolch yn fawr iawn i chi am y cyfle yma y bore yma. Fel sefydliad, rŷm ni'n croesawu strategaeth ddrafft y Llywodraeth yn fawr iawn. Rŷm ni'n croesawu'r ffaith bod modd cynllunio ar gyfer yr hirdymor. Mae yna nodau clir iawn yn y ddogfen. Yn hynny o beth, rŷm ni'n pryderu rhywfaint nad oes yna, ar hyn o bryd, raglen waith neu gynllun gweithredu a thargedau tymor byr, felly, fel y gellid mesur cynnydd o flwyddyn i flwyddyn neu o gyfnod i gyfnod. Rŷm ni hefyd yn llawn sylweddoli bod llawer iawn o randdeiliaid yn cefnogi'r Gymraeg ar hyn o bryd, ac mi hoffem ni weld elfen ychydig mwy gydweithredol yn cael ei phwysleisio yn y ddogfen, lle bod rôl a swyddogaethau'r holl randdeiliaid yn cael eu diffinio ychydig bach yn gliriach, a bod pawb yn ymwybodol o'u cyfrifoldeb a'u cyfraniad posibl nhw at y strategaeth.

Mr Jones: Well, first of all, thank you very much for the opportunity to appear before you this morning. As an institution, we welcome the Welsh Government's draft strategy very warmly. We welcome the fact that we can plan for the long term. There are clearly set out goals in the document. We are a little concerned that, at the moment, there is no action plan and short-term targets in place, so that we can measure progress from year to year or from stage to stage. We also fully understand that many stakeholders support the Welsh language at the moment, and I would like to see a more collaborative element emphasised in the document, where the role and functions of all of those stakeholders could be more clearly defined, so that everyone should be aware of their responsibilities and of their possible contribution to the strategy.

[9] Ond yn gyffredinol, rŷm ni yn croesawu cyfeiriad y strategaeth ac rŷm ni'n sicr, fel sefydliad, yn awyddus iawn i chwarae rhan weithredol a chadarnhaol i fynd â'r maen i'r wal, felly.

But generally speaking, we welcome the direction of travel of the strategy, and as an institution, we are very eager to play an active and positive role in achieving this goal, therefore.

[10] **Bethan Jenkins:** A oes gyda chi—?

Bethan Jenkins: Do you have anything?

[11] **Mr Tiplady:** Dim ond ategu beth mae Gwilym wedi'i ddweud—rŷm ni'n hapus iawn gyda'r targed, ac mae'n rhywbeth positif iawn y gallwn ni anelu tuag ato. Un cwestiwn sydd gyda ni fel sefydliad yw: beth yw'r diffiniad o siaradwr Cymraeg? Rŷm ni'n teimlo bod hynny'n rhywbeth pwysig iawn i'w ddiffinio. Rŷm ni'n ei weld e ymysg ein staff ac ymysg ein myfyrwyr ni—mae'r rhan fwyaf o bobl yn tanwerthu eu gallu yn y Gymraeg. Ymysg ein staff ni, mae rhyw 30 y cant yn nodi bod ganddyn nhw sgiliau yn y Gymraeg; o'r rheini, dim ond 5 y cant sy'n nodi eu bod nhw'n rhugl yn y Gymraeg. Felly, mae'n darged uchelgeisiol, mae'n darged y gallem ni anelu ato, ac mae'n rhywbeth positif iawn, ond rwy'n credu bod eisiau diffinio, fel y targedau ac fel y camau y mae Gwilym wedi'u nodi, beth rŷm ni'n ystyried fel siaradwr Cymraeg.

Mr Tiplady: I just want to endorse what Gwilym has said. We're very happy with the target and it's a very positive thing that we can aim for. One question that we do have as an institution is: what is the definition of a Welsh speaker? We feel that that is something that's very important to define. We see it amongst our staff and our students—the majority of people tend to undervalue their use of Welsh. Amongst our staff, about 30 per cent note they have skills in the Welsh language, but of those, only 5 per cent note that they are fluent. So, it is quite an ambitious target. It's a target that we can aim for, and it's very positive, but I think we need to define, as the targets and the steps that Gwilym has noted, what we consider to be a Welsh speaker.

[12] **Bethan Jenkins:** A gaf i jest ofyn yn gyflym, felly: sut ydych chi fel mudiad yn ei ddiffinio fe ar hyn o bryd? Achos rŷm ni wedi clywed hynny, ond, wrth gwrs, mae'n bwysig ein bod ni'n deall ei fod e ddim yn gysyniad newydd o ran ennyn pobl i siarad Cymraeg. Sut fydddech chi'n diffinio hynny, yn eich barn chi, yn barod, fel ein bod ni yn cael rhyw fath o ddealltwriaeth, ai dim ond dweud 'bore da', 'shwmâi', 'hwyl fawr', neu ai cynnal rhyw fath o ddadl yn y Gymraeg?

Bethan Jenkins: Could I just ask quickly, therefore: how, as an organisation, do you define it at the moment? Because we have heard that, but, of course, it's important that we understand that it's not a new concept in terms of attracting people to speak Welsh. How would you define that, in your view, so that we have some understanding? Is it just saying 'good morning', 'hello' 'goodbye', or is it holding some sort of discussion or debate in the Welsh language?

[13] **Mr Tiplady:** Roeddwn i'n

Mr Tiplady: Well, I anticipated that

meddwl y byddech chi'n gofyn y cwestiwn yna i fi, ac mae'n flin gyda fi, ond nid oes ateb da neu ateb perffaith gyda fi, ta beth. Mae gwahanol bobl yn rhoi eu hunain ar wahanol lefelau. Beth rŷm ni wedi bod yn ei wneud yw edrych ar: peth sgiliau yn y Gymraeg, rhai sgiliau yn y Gymraeg a rhugl yn y Gymraeg. Rŷm ni nawr, wrth baratoi tuag at y safonau iaith nawr, yn symud tuag at bump lefel o ddatganiadau positif ynglŷn â gallu yn y Gymraeg—y *can-do statements*—ynglŷn â ble rŷm ni yn y Gymraeg. Rŷm ni wedi ffeindio ein bod ni'n symud oddi wrth y syniad hwn o'r Gymraeg yn hanfodol, neu fod yn rhugl yn y Gymraeg, achos beth sy'n digwydd yw, wrth drial denu myfyrwyr ac aelodau o staff sy'n gallu gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg, rŷch chi'n rhoi ofn i lot o bobl, felly mae trial ei ddiffinio fe yn rhywbeth anodd, a beth rŷm ni wedi'i wneud yw, yn hytrach na thrial diffinio beth yw siaradwr Cymraeg, ar gyfer ein gweithlu ni, rŷm ni wedi edrych ar ba sgiliau yn y Gymraeg sy'n angenrheidiol, ac weithiau, sgiliau lefel isel ac weithiau sgiliau lefel uchel. Felly, mae'n flin gen i, nid yw hynny'n ateb eich cwestiwn chi, achos mae'n rhywbeth nad ŷm ni wedi gallu cael ateb iddo fe hyd yn hyn ychwaith.

question, and I'm sorry I don't have a perfect answer to it, because various people place themselves on different stages of the continuum. What we have been doing is looking at some skills in the Welsh language, towards fluency in the Welsh language. We now have, in preparing towards the language standards, five levels of positive statements—they're can-do statements on the Welsh language—in terms of where people are. We have found that we're moving away from this concept of fluency in the Welsh language, because what happens in trying to attract students or staff members who can work through the medium of Welsh is that you actually scare them away. Therefore, trying to define it can be difficult. What we have done is, rather than trying to define what a Welsh speaker is for our workforce, we have looked at what skills are necessary in the Welsh language and, on occasion, they are low-level skills and on other occasions they are high-level skills. I'm sorry, that doesn't answer your question, because it is something that we haven't yet found an answer to ourselves.

[14] **Bethan Jenkins:** Gwilym. Rwy'n marcio hwn, gyda llaw—na. [*Chwerthin.*]

Bethan Jenkins: Gwilym. I'm marking this, by the way—no. [*Laughter.*]

[15] **Mr Jones:** Mae'n rhaid bod yna elfen o allu cyfathrebu a chyflwyno gwasanaeth yn Gymraeg, oherwydd yn y pen draw, beth rŷm ni am ei weld drwy'r strategaeth yw bod mwy o Gymry Cymraeg yn defnyddio'r iaith, ac felly mae'r hyder hynny yn mynd i gynyddu os oes yna staff sy'n delio â'r cyhoedd sy'n gallu gwneud hynny yn yr iaith. Felly, mae'n rhaid bod yna elfen o ruglder i allu cyfathrebu a chynnal sgwrs gychwynnol yn y Gymraeg, dybiwn i.

Mr Jones: There needs to be an element of communication and offering a service through the medium of Welsh, because ultimately, what we want to see through this strategy is that more Welsh speakers use the language and therefore that confidence is going to increase if there are staff dealing with the public and able to do so through the medium of Welsh. So, there needs to be an element of fluency to be able to communicate and hold an initial conversation, I would say.

[16] **Bethan Jenkins:** Diolch yn fawr. Rŷm ni'n symud ymlaen at gadw a recriwtio athrawon, ac mae Dai yn mynd i arwain ar yr adran yma, gyda Dawn yn dod mewn ar ei ôl.

Bethan Jenkins: Thank you. We're going to move on to the retention and recruitment of teachers, and Dai is going to lead on this, with Dawn following up.

[17] **Dai Lloyd:** Diolch yn fawr, Gadeirydd. Diolch am eich atebion cychwynnol yn fanna. Yn benodol, felly, yn eich rôl fel prifysgolion sydd, yn naturiol, â chanolfannau hyfforddiant cychwynnol i athrawon, y cwestiwn gyntaf ydy: a allech chi ehangu ar rôl eich canolfannau mewnol, felly, a sut ydych chi'n derbyn cyfarwyddyd ar faint o athrawon sydd eu hangen ac ym mha bynciau y dylen nhw gael eu hyfforddi?

Dai Lloyd: Thank you, Chair. Thank you for your initial responses there. Specifically, in your role as universities that have initial teacher training centres, the first question is: could you expand upon the role of the ITTCs and how do you take guidance on how many teachers are required and in which subjects they should be trained?

[18] **Mr Tiplady:** Wel, gyda ni fel canolfan, rŷm ni'n gweithio rhwng Prifysgol Fetropolitan Caerdydd a Phrifysgol De Cymru, ac rŷm ni'n gweithio ar gyrsiau ôl-raddedig yn darparu hyfforddiant i athrawon

Mr Tiplady: Well, as a centre, we work with Cardiff Metropolitan University and the University of South Wales, and we work on postgraduate courses, providing training for secondary and primary teachers. In

uwchradd a chynradd. O ran ein targedau ni ynglŷn â faint rŷm ni i fod i'w cael, mae yna dargedau uwch gyda ni ynglŷn â faint rŷm ni i fod i'w cael yn gyfan gwbl, ond nid oes targedau gyda ni'n benodol am faint ddylai fod yn astudio gyda ni drwy gyfrwng y Gymraeg. I roi'r niferoedd sydd gyda ni eleni, mae yna 37 gyda ni sy'n astudio naill ai'r pwnc Cymraeg, uwchradd, neu sy'n astudio i fod yn athrawon uwchradd drwy gyfrwng y Gymraeg. Felly, nifer da, rŷm ni'n teimlo—nifer eithaf sylweddol o ran nifer y cyrsiau. Ac yn israddedig wedyn, mae 29 gyda ni yn astudio ar gyfer y cyrsiau cynradd.

terms of our targets on how many we need, we have higher targets on how many we're supposed to have completely, but we don't have specific targets on how many should be studying with us through the medium of Welsh. To provide you with the numbers that we have this year, there are 37 studying either the subject of Welsh at secondary level, or studying to be secondary school teachers through the medium of Welsh. So, quite a good figure, we think—quite substantial. And then we have 29 studying on the undergraduate courses at a primary level.

[19] **Mr Jones:** Byddai'n werth imi nodi, efallai, mi fŷm i'n bennaeth y gyfadran addysg ym Mhrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, neu Goleg y Drindod fel yr oedd e ar y pryd, rhwng 1988 a 2013. Ers hynny, nid wyf wedi bod yn ymwneud â hyfforddi athrawon, ond, yn sicr, mi allaf ddweud, yn gwbl onest, dros yr 20 mlynedd a rhagor y bues i'n ymwneud â'r maes hwn, mi oedd niferoedd hyfforddi athrawon, felly, yn gostwng yn raddol, yn sgil polisïau llywodraethol ac yn y blaen. Ond o ran y cyfrwng Cymraeg, rŷm ni ni fel sefydliad yn teimlo'n reit gryf bod hwn nawr yn gyfle gwirioneddol i'r Llywodraeth ymateb i'r galw, y galw cynyddol am addysg drwy gyfrwng y Gymraeg, ac rŷm ni o'r farn, drwy'r broses achredu newydd sydd ar y gorwel, fod yna gyfle euraidd gyda'r broses hon i sicrhau

Mr Jones: It would be worth while noting that I was the head of the education department at the University of Wales Trinity Saint David or Trinity University College as it was at the time, between 1988 and 2013. But, since then, I haven't been involved in teacher training, but, certainly, I can say with some honesty that, over the 20 years where I was involved in this area, the numbers in terms of teacher training were declining gradually, in light of Government policies and so on. But in terms of the Welsh medium, we as an institution feel quite strongly that this is a very real opportunity for the Government to respond to the increasing demand for Welsh-medium education, and we are of the opinion that, through the new accreditation process that's in the pipeline, that there is a golden

na ddylid achredu unrhyw gorff i'r dyfodol nad yw'n gallu gwireddu amcanion y Llywodraeth o ran hyfforddi athrawon cynradd ac athrawon uwchradd drwy gyfrwng y Gymraeg.

opportunity through that process to ensure that no body should be accredited in the future that can't achieve the Government's ambitions in terms of training primary and secondary teachers through the medium of Welsh.

[20] Hyn sydd wrth wraidd strategaeth newydd y Llywodraeth ym maes y Gymraeg, ac rwy'n meddwl bod yn rhaid inni dderbyn hynny. Os na chawn ni gyflenwad digonol o athrawon cynradd ac uwchradd drwy gyfrwng y Gymraeg, yna wedyn mae'n mynd i fod yn anodd iawn i wireddu holl amcanion y strategaeth. Felly, fel sefydliad, rŷm ni'n teimlo'n gryf bod angen buddsoddiad, bod angen targedau penodol ar y canolfannau a fydd yn cael eu hachredu i'r dyfodol, a bod y capasiti yn y canolfannau hynny i ddarparu a hyfforddi addysg drwy gyfrwng y Gymraeg, oherwydd os na wnawn ni hynny, mae'n mynd i fod yn o heriol, felly.

This is at the very heart of the Government's new strategy in terms of the Welsh language, and I think we have to accept that, if we don't get an adequate supply of primary and secondary teachers who are able to teach through the medium of Welsh, then it's going to be very, very difficult to achieve all of the objectives of the strategy. So, as an institution, we feel strongly that we need investment and that we need specific targets for the accredited centres in the future, and that the capacity should be in those centres in order to provide and to train for Welsh-medium education, because if we don't do that, then it's going to be very challenging.

[21] I edrych yn ôl ar y gorffennol, ar arferion da, pan gychwynnais i ryw 20 mlynedd, 25 mlynedd yn ôl, mi oedd yna gyrsiau, cyrsiau dwys, yn cael eu cyflwyno ar gyfer athrawon. Cyn cychwyn eu cwrs, bydden nhw'n dod am bythefnos o hyfforddiant dwys yn y Gymraeg—athrawon ar y cwrs TAR cynradd a TAR uwchradd. Rydw i'n meddwl bod yna gyfle i ailedrych ar hynny fel un ffordd o ddenu rhagor o Gymry Cymraeg—y Gymry Cymraeg hynny sydd ychydig

In looking to the past, at good practice in the past, when I started some 20 or 25 years ago, there were intensive courses that were provided for teachers. Before they started their actual course, they would come for a fortnight of intensive Welsh training—teachers on the secondary and primary PGCE course. I think there's an opportunity to look at that anew as one way of attracting more Welsh speakers—those Welsh speakers who are a little reticent;

bach yn betrus; y rheini sydd efallai ddim wedi ystyried mynd i addysgu yn Gymraeg. Hynny yw, eu bod nhw'n siaradwyr Cymraeg ond heb ystyried mynd i addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. Yn sicr, rhyw 20 mlynedd yn ôl, mi roedd y system honno'n ennill siaradwyr Cymraeg i'r gorlan er mwyn sicrhau eu bod nhw, ar ddiwedd y cwrs, yn cael eu cymhwyso i addysgu yn y Saesneg neu'r Gymraeg.

those who perhaps haven't considered going into teaching in the Welsh-medium sector. That is, they're Welsh speakers, but they haven't considered the Welsh-medium sector as a career. Certainly, some 20 years ago, that system drew in Welsh speakers to ensure that, at the end of the course, they were qualified to teach both through the medium of English and Welsh.

[22] **Bethan Jenkins:** Diolch. Mae gan Dawn gwestiwn clou ar hwn yn benodol.

Bethan Jenkins: Thank you. Dawn has a quick question on this specifically.

[23] **Dawn Bowden:** I just have a quick question, if I may, around the issue of teacher training. Am I interpreting what you're saying correctly in that you feel that there should be an element of compulsion in terms of study of the Welsh language if somebody wishes to teach in Wales?

[24] **Mr Jones:** Dyna ein barn ni fel sefydliad. Ar gyfer y Cymry Cymraeg, mae angen eu trwytho nhw a rhoi'r hyder yna iddyn nhw i ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. Ond wedyn, ar gyfer y rhai di-Gymraeg neu prin eu Cymraeg, mae'n rhaid, rhywsut, o fewn y cwrs, cyn y cwrs, ar ôl y cwrs, sicrhau eu bod nhw'n cael eu cyflwyno i'r Gymraeg, hanes y Gymraeg a hanes dwyieithrwydd yng Nghymru, fel eu bod nhw'n deall y cyd-destun dwyieithog y mae'r Llywodraeth yn ceisio ei ddatblygu a'i annog o fewn y strategaeth. Ydw, mi ydw i.

Mr Jones: That's our view as an institution. For the Welsh speakers, there is a need to immerse them and give them the confidence to teach through the medium of Welsh. But then, for those who don't speak Welsh or don't have too much Welsh, there needs to be a way before the course, during the course, after the course, to ensure that they're introduced to the Welsh language, the history of the language and the history of bilingualism in Wales, so that they understand the bilingual context that the Government is trying to develop and encourage within the strategy. So, yes, I do.

[25] **Dawn Bowden:** Okay. That I understand. To follow on from that, this is

an issue for Government, I appreciate, but I would welcome your views on that, because there is a different entry-level standard for teaching in Wales compared to England. I have an example of a member of my own family, a fluent Welsh speaker, who couldn't get into teacher training college in Wales and is now teaching in England, because of the minimum entry standards. He didn't have a B in maths, even though he's not teaching maths. So, do you have view on that, because there is a danger that we are losing Welsh speakers in the profession to England?

[26] **Mr Tiplady:** Fy hunan, rwy'n cytuno â chi. Mae'n rhywbeth mae ein staff ni'n codi'n rheolaidd, sef bod pobl maen nhw'n amlwg yn cwrdd â nhw, yn eu cyfweld, a fyddai'n athrawon da iawn, ond achos bod y lefelau yna'n uwch, maen nhw'n eu colli nhw. Mae yna sgysiau mewnol wedi bod ynglŷn â'r ffaith y gallech chi asesu ar ddiwedd y cyfnod, fel bod cyfle gyda nhw i gael y cymhwyster angenrheidiol erbyn diwedd eu cyfnod nhw fel athrawon yn hytrach na rhoi rhywbeth ar y dechrau. Nid ymateb y sefydliad rwy'n gallu ei roi i hynny, mae'n flin gennyf i, ond fe allaf roi fy ymateb personol a'r ymateb rwyf wedi ei dderbyn oddi wrth y staff, ein bod ni wedi colli mas ar rai athrawon da iawn oherwydd yn gwmws yr esiampl rŷch chi wedi'i rhoi.

Mr Tiplady: Personally, I agree with you. This is something raised regularly by our staff, that there are people who they obviously meet and interview who would make very good teachers, but because those levels are higher, they are lost to the system. There have been some internal discussions around the fact that you could assess at the end of the training period, so that they have that opportunity to gain the necessary qualification by the end of their teacher training, rather than assessing at the beginning. I can't give a response as the institution, I'm afraid, but I can give my personal response and the response that I've heard from staff, that we have lost some very good teachers because of the very example that you've given.

[27] **Bethan Jenkins:** Dai. Diolch.

Bethan Jenkins: Dai, thank you.

[28] **Dai Lloyd:** Ie, diolch, Gadeirydd. Jest i symud ymlaen ychydig bach, a allech chi jest olrhain beth yw'r heriau presennol ynglŷn ag ysgolion cyfrwng Cymraeg a'r sector addysg cyfrwng Cymraeg yn naturiol? I fynd yn ôl, y bwriad, yn naturiol, ydy

Dai Lloyd: Yes, thank you, Chair. Just to move on a little, could you just outline what are the current challenges facing Welsh-medium schools and the Welsh-medium education sector naturally? Going back, the intention is to reach 1

cael y 1 miliwn o siaradwyr yma. Rŷch chi wedi rhyw led gyfeirio eisoes eich bod yn disgwyl, fel canolfannau hyfforddiant, derbyn rhyw dargedau ynglŷn â nifer yr athrawon y dylech ddisgwyl eu hyfforddi; ddim jest ei adael o i fyny i chi a faint ŷch chi'n gallu eu denu, ac ati. Ond, yng nghyd-destun hynny, a'r angen yma i gael targedau, a allwch chi olrhain, mewn ychydig bach mwy o ddyfnder, yr heriau presennol yn y sector addysg Gymraeg, a hefyd wrth symud ymlaen? Wrth gwrs, mae'r rhan fwyaf o'r twf yma i 1 miliwn o siaradwyr yn mynd i ddigwydd achos bod gennym ni sector addysg cyfrwng Cymraeg, felly.

[29] **Mr Tiplady:** A allaf i ddechrau? Diolch yn fawr ichi. Mae yna niferoedd da gennym ni ar hyn o bryd, achos mae yna arian ar gael i hyfforddi trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'n gyfle gwych i bobl—mae'n swydd dda iawn i fod yn athro. Y '*package*' yw'r gair Cymraeg roeddwn i'n trio edrych amdano, ond yn ffaelu ffeindio fe. Mae'r *package* yn un da. Felly, yr her rwyf i'n teimlo sydd gennym ni ar hyn o bryd, wrth gwrs, yw bod niferoedd eithaf da gennym ni ac mae'n rhaid sicrhau bod ysgolion partner gennym sydd o'r safon angenrheidiol, ac rydym ni'n hapus iawn ac yn ffodus iawn gyda'r ysgolion sy'n gweithio gyda ni. Os ŷm ni'n mynd i gynyddu'n sylweddol o le rŷm ni nawr, pwy yw'r farchnad o fyfyrwyr rŷm ni'n mynd i'w denu? Sut ydym yn mynd i ddod atyn nhw i

million Welsh speakers. You have sort of referred already to the fact that you expect, as training centres, to receive targets with regard to the numbers of teachers you should expect to train; that it won't just be left up to you and how many you could attract, and so on. But, in that context and this need to have targets, could you set out in some depth the current challenges in the Welsh-medium education sector, and also in moving on? Of course, most of this growth towards the 1 million Welsh speakers will happen because we have a Welsh-medium education sector.

Mr Tiplady: If I could start, thank you. We do have good numbers at the moment, because there is funding available for training through the medium of Welsh. It's an excellent opportunity—teaching is a good job. 'Package' is the word I was looking for in Welsh, but couldn't find. The package is a good one. So, the challenge that I feel we have at the moment is that we have relatively good numbers and we need to ensure that we have partner schools that are of the necessary standard, and we are very happy and fortunate with the schools that we work with. If we are going to significantly increase the numbers from where we are now, well, who are the students we're going to attract? How are we going to approach them to attract them teach through the medium of Welsh? And,

ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg? Ac, a fydd yna ddigon o ysgolion i gefnogi'r ddarpariaeth yna i sicrhau lleoliad iddyn nhw?

will there be a sufficient number of schools available to support that provision, so that they have teacher training placements?

[30] Rwy'n cytuno 100 y cant â beth ddywedodd Gwilym. Os ydym yn mynd i gynyddu, mae'n rhaid inni ddenu'r darpar fyfyrwyr hynny sydd ddim yn teimlo'n ddigon hyderus yn eu sgiliau trwy gyfrwng y Gymraeg a chodi'u sgiliau nhw drwy nifer o wahanol ffyrdd. Dyna un o'r pethau mawr, yr heriau mawr, rwy'n teimlo, sydd eisiau i ni edrych arnynt.

I agree 100 per cent with what Gwilym said. If we are going to increase the numbers, we have to attract those prospective students who currently don't have enough confidence in their Welsh language skills and improve their skills in a number of different ways. That's one of the major challenges that I think we face.

09:30

[31] **Mr Jones:** Os gallaf gyfeirio at un maes ychydig bach yn wahanol, sef maes, ar hyn o bryd, sy'n cael ei alw'n 'Gymraeg ail iaith', a sut rydym yn mynd i gyflwyno'r Gymraeg i siaradwyr di-Gymraeg ar hyn o bryd. Rwy'n meddwl bod yna her wirioneddol i ni fel cenedl ar hyn o bryd i ddenu rhagor o raddedigion y Gymraeg, ac i ddechrau cael rhagor o bobl i astudio Cymraeg fel maes, fel pwnc academiaidd yn y brifysgol, a'u perswadio, neu o leiaf eu hannog nhw, i ystyried gyrfa fel athrawon. Oherwydd os nad oes digon yn astudio'r Gymraeg, i ddechrau ar lefel A felly mewn ysgol, a mynd ymlaen wedyn i astudio'r Gymraeg yn y brifysgol, yna mae'r *pool* hwnnw yn *pool* bychan iawn, iawn. Ac os ydym am weld gwerth ac effaith y strategaeth newydd, mae'n rhaid cael criw sylweddol iawn o athrawon

Mr Jones: If I can just refer to an area that's a little bit different, an area that's called 'Welsh as a second language' at the moment, and how we're going to introduce Welsh to non-Welsh speakers at the moment. I think there is a real challenge for us as a nation there, to attract more Welsh graduates, and to begin to have more people studying Welsh as an academic subject at university level, and persuade them, or at least encourage them, to consider a career as a teacher. If there aren't enough people studying Welsh, initially at A-level in school, and then going on to study Welsh at university level, then that pool is a very, very small pool. And if we want to see value and impact from this new strategy, there is a need for a significant number of Welsh teachers who can teach Welsh speakers and those who don't speak

Cymraeg sy'n medru dysgu'r Cymry Cymraeg a'r rhai di-Gymraeg. Ac, ar hyn o bryd, mae gen i bryder gwirioneddol nad ym ni yn llwyddo i ddenu digon i'r maes hwnnw, oherwydd, yn y pen draw, mae'n rhaid wrth athrawon ysbrydoledig, sydd yn mynd i annog ein pobl ifanc ni i barhau â'u hastudiaethau yn Gymraeg, a theimlo balchder yn yr iaith ac yn nwyieithrwydd ein cenedl ni yn gyffredinol. Felly, mae hwnnw'n un maes.

Welsh. And, at the moment, I have real concern that we're not succeeding in attracting enough to that area, because, ultimately, there is a need for inspirational teachers, who are going to encourage our young people to continue with their studies through the medium of Welsh, and feel pride in the language and in the bilingualism of our nation in general. So, that's one area.

[32] Rwyf am fynd yn ôl hefyd at beth ddywedodd Daniel o ran marchnata. Anghofier y Gymraeg am eiliad, mae marchnata'r proffesiwn addysgu yn rhywbeth y mae angen rhoi sylw dybryd iddo fe yma yng Nghymru, a chodi statws y proffesiwn, oherwydd mae'n broffesiwn gwerthfawr dros ben. Mae'n broffesiwn sydd yn effeithio ar filoedd o unigolion, ac os na chawn ni hwn yn iawn, yna gallai unrhyw strategaeth ddiflannu dros nos mewn gwirionedd.

I want to go back to something Daniel said about marketing. Forget about the Welsh language for a minute—marketing the teaching profession is something that needs attention in Wales, and there's a need to raise the status of the profession in Wales, because it is a very valuable profession. It's a profession that has an impact on thousands of individuals, and if we don't get this right, then any sort of strategy could disappear overnight.

[33] **Dai Lloyd:** Yn dilyn o'ch pwynt olaf chi, a dweud y gwir, dyma'r cwestiwn olaf sydd gen i. Ar ôl i bobl dderbyn hyfforddiant bendigedig i fod yn athrawon yn eich prifysgolion chi, mae yna, wrth gwrs, yn naturiol, bwysau i aros yng Nghymru wedyn. Ac, wrth gwrs, mae yna her sylweddol mewn rhai ardaloedd yng Nghymru i recriwtio athrawon cyfrwng Cymraeg yn y lle cyntaf, ac wedyn i'w cadw nhw, am wahanol resymau. Rydym i

Dai Lloyd: Following on from your final point, this is my final question. Once people have received wonderful training to become teachers at your universities, there is, of course, pressure to remain in Wales. And, of course, there is a significant challenge in some areas of Wales to recruit Welsh-medium teachers initially, and then to retain them, for all sorts of various reasons. We all tend to choose to live in cities these

gyd efallai yn tueddu i fyw mewn dinasoedd y dyddiau hyn, er enghraifft. Ond, o'ch ochr chi, felly, beth fydddech yn gweld fel y ffordd orau o fynd i'r afael efo'r fath her yna? Wedi i ni eu cael nhw a'u hyfforddi nhw, sut wedyn mae eu cadw nhw yma yng Nghymru, fel athrawon Cymraeg yma yng Nghymru?

[34] **Mr Jones:** Mae'n un dasg i'w cadw nhw yng Nghymru. Y dasg arall yw cadw athrawon yn y dosbarth, *full stop* felly. Fel rhywun sydd ag aelodau o'r teulu yn athrawon, ac wedi bod ers blynyddoedd lawer, nid oes rhaid i fi ddweud rhagor wrthyh chi. Mae'n broffesiwn heriol, ond mae'n broffesiwn sy'n rhoi budd a gwerth personol hefyd. Felly, rwy'n meddwl bod angen i'r Llywodraeth yn gyffredinol edrych ar amodau gwaith athrawon, boed yn Gymraeg neu'n Saesneg. Ond, wrth ganolbwyntio ar y Gymraeg am eiliad, rwy'n meddwl bod yn rhaid i ni werthu'r proffesiwn ar gyfer ein pobl ifanc ni fel gyrfa sy'n mynd i wneud gwahaniaeth i Gymru—gyrfa lle gallan nhw fel unigolion wneud gwahaniaeth i blant a phobl ifanc, ond hefyd i greu'r Gymru ddwyieithog, hyderus yma rydym i gyd am ei gweld.

[35] Ac felly rwy'n meddwl, i fynd yn ôl at farchnata eto, fod angen i ni ailedrych ar sut rydym yn marchnata'r proffesiwn. A rwy'n meddwl bydd hynny, o godi statws y proffesiwn, yn fodd o gadw mwy o

days, for example. So, from your point of view, what would you see as the best ways of tackling those challenges? Once we've actually attracted them and trained them, how do we retain them in Wales, as Welsh teachers, or teachers through the medium of Welsh, here in Wales?

Mr Jones: One task is to keep them in Wales, but another task is to keep teachers in the classroom full stop. As somebody who has family members who are teachers, and who have been for many years, I don't have to say any more. It's a challenging profession, but it's a profession that does provide benefits and self-worth as well. So, I think that the Government in general has to look at the terms and conditions of teachers, whether in English or Welsh. But, in concentrating on the Welsh language for a moment, I think we have to sell the profession to our young people as a career that is going to make a difference to Wales—a career where they as individuals can make a difference to children and young people, but also in creating this bilingual, confident Wales that we all want to see.

And, I think, to go back to marketing again, there is a need for us to look again at how we market the profession. And I think that, in raising the status of the profession, will be a means of retaining more

athrawon, a mwy o athrawon yng teachers, and more teachers in Nghymru yn y pen draw. Wales, ultimately.

[36] **Bethan Jenkins:** Diolch. Mae **Bethan Jenkins:** Thanks. Dawn has gan Dawn gwestiynau nawr ynglŷn â questions now about teaching chynorthwywyr addysgu. assistants.

[37] **Dawn Bowden:** Thank you. It may be that this is not an appropriate question for you, actually. We've got the Education Workforce Council coming in afterwards and it may be more appropriate for them. But, we did hear evidence last week from the unions, the teaching unions in particular, about the role of teaching assistants and support staff, and the role that they may have, particularly in early years and one-to-one support in the classrooms. Do you have a view about the role of teaching assistants and support staff in schools, in terms of helping us to get towards the ultimate objective of 1 million speakers?

[38] **Mr Tiplady:** Nid yn rhinwedd fy **Mr Tiplady:** Not in light of my role at swydd ym Met Caerdydd, ond rwyf Cardiff Met, but I'm also chair of hefyd yn gadeirydd llywodraethwyr governors at Ysgol Pencae in Ysgol Pencae yn Llandaf, ac rydym yn Llandaff, and we know that the gwybod bod y cynorthwywyr dysgu teaching assistants are crucial to the yn hollol hanfodol i'r gwaith rydym work that we do as a school. We yn ei wneud fel ysgol. Ni fyddem yn wouldn't succeed without those llwyddo heb y cynorthwywyr dysgu teaching assistants. So, anything that yna. Felly, unrhyw beth y gallwn ni ei we can do to support, develop and wneud i gefnogi, i ddatblygu, i expand that area, I would agree with ehangu'r maes yna, byddwn i yn 100 per cent, because they do cytuno â fe 100 y cant, achos maen wonderful work. nhw'n gwneud gwaith gwych.

[39] **Mr Jones:** A gaf gyfeirio at dri **Mr Jones:** May I refer you to three chynllun rydym ni fel prifysgol wedi schemes that, as a university, we've bod yn rhan ohonyn nhw? Yn gyntaf, been part of? First, there was a roedd cynllun Geiriau Bach a oedd yn scheme called Geiriau Bach, which cael ei gyflwyno dan nawdd was introduced under the Llywodraeth Cymru drwy'r Drindod sponsorship of Welsh Government Dewi Sant, ar draws Cymru, rhyw through Trinity Saint David, across bedair neu bum mlynedd yn ôl, lle Wales, about four or five years ago, roedd yna rai cannoedd o where hundreds of teaching gynorthwywyr dysgu yn cael eu noddi assistants were sponsored by the

gan y Llywodraeth i ddilyn cwrs—cwrs lefel 6, os rwyf yn cofio'n iawn—a oedd yn eu paratoi nhw ar gyfer cyflwyno'r Gymraeg mewn cydestun dwyieithog. Roedd rhai yn siaradwyr Cymraeg a rhai nad oedden nhw yn siarad Gymraeg. Mi oedd hwnnw yn gwrs hynod, hynod o lwyddiannus yn ôl yr adborth a dderbyniwyd. Fe dorwyd y cyllid ac fe orffennodd y cwrs hwnnw, ond mi roedd hwnnw yn llwyddiannus iawn.

Government to follow a course—a level 6 course, if I remember rightly—which prepared them for introducing the Welsh language in a bilingual context. Some were Welsh speakers and others didn't speak Welsh. That was an extremely successful course according to the feedback that was received. Funding was cut, and that course came to an end, but that was very successful.

[40] A gaf i hefyd gyfeirio—

May I also refer—

[41] **Bethan Jenkins:** Pam gafodd y cyllid ei dorri?

Bethan Jenkins: Why was the funding cut?

[42] **Mr Jones:** Daeth y cytundeb i ben—

Mr Jones: The contract came to an end.

[43] **Bethan Jenkins:** Jest wnaeth e ddod i ben.

Bethan Jenkins: It just came to an end.

[44] **Mr Jones:** Do, daeth y cytundeb i ben ac wedyn fe ddiflannodd y rhaglen, fel petai. Ond fe hyfforddwyd rhyw 300 neu 400 o gynorthwywyr dysgu ar draws Cymru i gyd.

Mr Jones: Yes, the contract came to an end and then the scheme disappeared, so to speak. But about 300 or 400 teaching assistants across Wales were trained.

[45] Yn ail, wedyn, eto fel prifysgol rydym yn cynnig gradd sylfaen—cwrs dwy flynedd—ar gyfer cynorthwywyr dysgu ar draws de-orllewin Cymru a chanolbarth Cymru. Mae rhai o'n staff ni yn addysgu mor bell â'r Trallwng, y Drenewydd, sir Benfro, Aberystwyth a Chaerfyrddin, ac yn y blaen, lle rydym ni yn cyflwyno y cynorthwywyr dysgu yma i faterion yn

Secondly, again as a university we offer a foundation degree—a two-year course—for teaching assistants across south-west Wales and mid Wales. Some of our staff teach as far away as Welshpool, Newtown, Pembrokeshire, Aberystwyth and Carmarthen, and so forth, where we introduce these teaching assistants to issues relating to education, and

ymwneud ag addysg, ac addysg gynhwysol yn benodol. Rydym ni wedi cynnig llwybr iddyn nhw wedyn i raddio drwy astudio am flwyddyn ychwanegol yn y brifysgol. Beth sydd wedi bod yn wirioneddol wych yw gweld rhai o'r cynorthwyr dysgu yma yn dilyn y llwybr yma ac yn graddio, ac yn mynd ymlaen i wneud cwrs TAR cynradd, ac yn mynd ymlaen i fod yn athrawon. Mae gweld y rhain yn dilyn y llwybr hwnnw ac yn cyrraedd eu nod o fod yn athrawon yn rhywbeth go arbennig. Felly, mae hwnnw'n amlwg wedi gweithio.

inclusive education specifically. We've offered them a pathway then to graduate by studying for an extra year at the university. What has been wonderful is seeing some of these teaching assistants following this pathway and graduating, and going on to do a PGCE primary course and becoming teachers. To see them following this pathway and reaching their aim of becoming teachers is something quite special. So, that clearly has worked.

[46] A'r drydedd raglen rwyf am gyfeirio ati yw'r cwrs sabothol. Mae'r Drindod Dewi Sant yn arwain y maes hwn o safbwynt cyrsiau sabothol ar gyfer cynorthwyr dysgu, a chredwch chi fi, mae'r cwrs hwnnw yn gweithio. Mae'r adborth y tu hwnt o ffafriol gan athrawon a'r cynorthwyr dysgu. Yr hyn sy'n bwysig fanna yw, unwaith eu bod nhw'n gorffen y cwrs, maen nhw'n mynd nôl i'r ystafell ddosbarth lle maen nhw'n llawer mwy hyderus yn cyflwyno'r Gymraeg ac yn cefnogi'r athrawon yn Gymraeg mewn cydestun dwyieithog, ond bod yna ôl-ofalaeth; hynny yw, bod yr ysgolion ar ôl eu cefnogi nhw yn sicrhau bod yr isadeiledd yno i'w cefnogi nhw ymhellach yn ôl yn y dosbarth. Efallai mai dyna lle mae angen gweithio ymhellach ar y cwrs hwnnw ar hyn o bryd. Ond mae nifer o gyfleoedd lle rydym ni fel prifysgol wedi bod yn rhan ohonyn nhw i ymateb i'r

And the third scheme I want to refer to is the sabbatical course. Trinity St David is leading in this field of sabbatical courses for teaching assistants, and believe you me, that course works. The feedback is very favourable from teachers and the teaching assistants. What's important there is that once they complete the course, they go back to the classroom where they're much more confident in introducing Welsh and supporting the teachers through the medium of Welsh in a bilingual context, but that there is aftercare; that is, that the schools ensure that the infrastructure is there to support them further back in the classroom. Perhaps that's where there is a need for more work on that course at the moment. But there are a number of opportunities where, as a university, we've been part of them to respond to this increasing emphasis on the role of teaching assistants in the

pwyslais cynyddol sydd ar rôl y classroom.
cynorthwydd dosbarth yn yr ystafell
ddosbarth.

[47] **Dawn Bowden:** And what—. Sorry, Chair; just one more question. What's been the experience in the schools? Have the teaching assistants and support staff been released from their duties during working time to do this course, because that's one of the barriers of course?

[48] **Mr Jones:** Dyna chi. Mae'r brifysgol yn gweithio gyda'r awdurdod lleol i adnabod unigolion y tybir y byddan nhw'n elwa'n sylweddol o ddarpariaeth o'r fath. Maen nhw'n cael eu rhyddhau gan yr ysgol, ac yna mae'r Llywodraeth wedyn, yn ôl beth rwy'n ddeall, yn talu am arian cyflenwi i sicrhau bod yna gyflenwi yn y dosbarth tra bod y person yna i ffwrdd am dri mis, rwy'n meddwl.

Mr Jones: That's right. The university works with the local authority to identify individuals who it's believed would benefit significantly from such provision. They are released by the school, and then the Government, as I understand it, pays for backfilling or supply provision in order to ensure that there are supply teachers whilst that person is away for some three months, I believe.

[49] **Bethan Jenkins:** Daniel, a ydych chi eisiau dod mewn ar hynny?

Bethan Jenkins: Daniel, did you want to come in there?

[50] **Mr Tiplady:** Os ydym ni yn edrych i farchnata addysgu a phwysigrwydd athrawon, elfen gref o hynny ddylai fod marchnata pwysigrwydd cynorthwywyr dysgu, achos maen nhw'n hollbwysig i beth mae'r athrawon yn gallu ei gyflawni, a hebddyn nhw fyddai hynny ddim yn bosibl.

Mr Tiplady: If we're looking to market teaching and the importance of teachers, then an important element of that is to market the importance of teaching assistants, because they are crucial to what the teachers can deliver, and without them it simply wouldn't be possible.

[51] Un o'r problemau sydd ar hyn o bryd yw bod nhw'n cael eu gweld o bosibl fel swyddi statws yn is. Er enghraifft, yn y *destination of leavers from higher education survey*, lle rydym ni'n edrych fel prifysgolion ar

One of the problems that exists at the moment is that they are possibly seen as lower status roles. For example, in the destinations of leavers from higher education survey, which is what we look at as

ble mae'n graddedigion ni yn mynd, nid yw swydd cynorthwyydd dysgu yn cael ei hystyried fel swydd lefel graddedigion. Mae'n cael ei hystyried yn swydd lefel is, er eu bod nhw'n hollbwysig i lwyddiant ysgolion. Felly, mae eisiau edrych ar statws y rôl wrth farchnata'r peth yn gyffredinol, a marchnata eu pwysigrwydd nhw.

universities in terms of where our graduates go, a teaching assistant post isn't considered to be a graduate level post. It's seen as a lower level post, although they are crucially important to the success of schools. So, we need to look at the status of the role in marketing more generally, and marketing the importance of that role.

[52] **Dawn Bowden:** And the registration—*[Inaudible.]*

[53] **Mr Tiplady:** Yes. Definitely.

[54] **Dawn Bowden:** Okay, thank you.

[55] **Bethan Jenkins:** Diolch yn fawr. Hannah.

[56] **Hannah Blythyn:** We talked about the need to recruit more people to be able to teach through the medium of Welsh, but in the short to medium term we're probably going to be looking at needing to upskill the teachers we already have to enable them to be more confident to teach through the medium of Welsh. In your view, what capacity is there within the sector to upskill, and what do you see the challenges are in doing that?

[57] **Mr Tiplady:** Gyda ni, rŷm ni'n cynnig, mae cynllun colegau yn rhedeg, sef bod pob person sy'n astudio addysg gyda ni—hyfforddiant cychwynnol athrawon—yn gorfod gwneud elfen o'r Gymraeg. Mae 85 y cant o'n myfyrwyr ni yn dod o Gymru, felly, mae gyda nhw TGAU, neu hanner TGAU neu TGAU ail iaith—mae rhywbeth gyda nhw yn barod. Felly, rydym ni'n gweithio gyda nhw er mwyn sicrhau bod y Gymraeg achlysurol gyda nhw iddyn nhw allu defnyddio: 'bore da'—*good morning*—a'r lliwiau ac yn y blaen, ac

Mr Tiplady: With us, we offer a scheme that colleges run, that everybody who studies education—initial teacher training—with us has to do an element of Welsh. Eighty five per cent of our students come from Wales, so they have a GCSE or half a GCSE or second-language GCSE—they have something already. So, we work with them in order to ensure that they have incidental Welsh that they can use: 'bore da'—good morning—and the colours and so on. So, we ensure that there is a baseline there. Myself, I think that this cohort

yn y blaen. Felly, rydym ni yn sicrhau fod yna waelodlin yna. Rwyf fi fy hun yn teimlo fod y garfan hon yn un hollbwysig, os ydym ni'n mynd i drio cyrraedd ein targed ni i godi sgil a safon Cymraeg y rhain.

is vital if we're going to try to reach our target to upskill and improve the standard of these people's Welsh.

[58] Mae hwnnw'n rhywbeth heriol, achos mae'r flwyddyn o'r cyrsiau TAR yn flwyddyn hir, anodd a llawn ac felly mae unrhyw beth ychwanegol sydd yn mynd i fod yn y flwyddyn hynny yn mynd i fod yn rhywbeth anodd. Felly, rwy'n credu bod eisiau inni edrych ar gynlluniau fel y cynlluniau sabothol, ac fel y cynlluniau ychwanegol ar ben hynny, er mwyn codi sgiliau pobl, achos mae yna lefel o sgil yna, wrth iddyn nhw ein cyrraedd ni—TGAU ail iaith neu TGAU sydd yna. Rŷm ni'n cynyddu'r rheini hyd at ryw bwynt, ond dim digon fel eu bod nhw'n gallu weithio trwy gyfrwng y Gymraeg. Felly, mae fe'n un o'r heriau mawr sydd gyda ni.

That is challenging, because the year of PGCE courses is a difficult, long and full year and so anything that's additional in that year is going to be difficult. So, I think we need to look at schemes like the sabbatical schemes, and like the additional schemes on top of that, in order to upskill people, because there is a level of skill there, when they reach us—they have second-language GCSE or GCSE. We're increasing those skills up to a certain point, but not sufficiently for them to be able to work through the medium of Welsh. So, it is one of the great challenges that we have.

[59] **Mr Jones:** I fynd yn ôl at un o'r cwestiynau blaenorol, mae angen sicrhau bod pob un myfyriwr sydd wedi ei hyfforddi yng Nghymru i fod yn athro neu'n athrawes yn cael dealltwriaeth o'r Gymraeg, ond hefyd yn cael cyfle gwirioneddol i ddysgu'r Gymraeg at ryw lefel, boed cynradd neu uwchradd. Yr unig ffordd rydym ni'n mynd i wneud hynny yw sicrhau, o fewn y cwricwlwm newydd—pan fyddem ni yn ymateb i Donaldson a'i adroddiad—bod y cwricwlwm newydd yng Nghymru yn adlewyrchu'r Gymru rydym ni'n deisyfu yn y strategaeth.

Mr Jones: To return to a previous question, we need to ensure that every student trained in Wales to become a teacher has an understanding of the Welsh language, but also a real opportunity to learn the language to some level, be that primary or secondary. The only way we can do that is to ensure that, within the new curriculum—when we respond to the Donaldson report—the new curriculum in Wales reflects the Wales that we are aspiring towards in the strategy. This is the major opportunity and so,

Hwn yw'r cyfle mawr ac felly o fewn rhaglen waith hyfforddi cynradd ac uwchradd, mae angen lle canolog i'r Gymraeg, boed ar gyfer Cymry Cymraeg sy'n siarad Cymraeg yn rhugl, y dysgwyr da, neu'r rheini sydd heb unrhyw syniadaeth am y Gymraeg, fel bod pawb yn cael cyfle i berchnogi'r iaith a chymryd balchder yn yr iaith Gymraeg. Dyna'r pwynt gyntaf, yn sicr.

within the work programme for primary and secondary training, the Welsh language needs a central role, be that for fluent Welsh speakers, confident learners, or those who have no concept of the Welsh language, so that everyone can take ownership of the Welsh language and take pride in the Welsh language. That's the first point, certainly.

[60] Yr ail bwynt wedyn: rwyf am fynd yn ôl at y cynllun sabothol. Dyma i chi gynllun; mae'n gynllun drud, mae'n gynllun uchelgeisiol, ond mae'n gynllun sy'n gweithio. Hoffwn i eich bod chi, fel pwyllgor, yn edrych ar yr impact y mae'r cynllun sabothol yma yn ei gael ar athrawon a chynorthwyrwyr dysgu. Rydw i'n meddwl ei fod yn gyfle i'r Llywodraeth i ystyried datblygu hwn ymhellach, nid yn unig ar gyfer athrawon, ond ar gyfer meysydd eraill sy'n ymwneud â'r strategaeth. Nid ydych chi efallai am gyffwrdd â nhw heddiw, ond rydych chi yn sôn am iechyd a gofal a maes hamdden ac yn y blaen hefyd.

The second point then: I want to return to the sabbatical scheme. This is an expensive programme, it is an ambitious programme, but it is a programme that works. I would like you, as a committee, to look at the impact that the sabbatical programme has on teachers and teaching assistants. I think there's an opportunity for the Government to develop this further, not only for teachers, but also in others areas related to the strategy. You may not want to touch upon them today, but you're talking about health and care and leisure and so on and so forth too.

[61] Yr unig ffordd y mae rhywun yn mynd i ddysgu'r iaith yw trwy gael dwyster yn y dysgu, dwyster profiad ac yna cyfle wedyn i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle gyda chefnogaeth y cyflogwr yn y pendraw. Felly, mae hynny'n rhywbeth yr wyf i'n credu'n gryf iawn, iawn. Mae'r cynllun yn gweithio ac mae cyfle gwirioneddol i'w ddatblygu

The only way one is going to learn the language is to have an intensity of learning, of experience and then an opportunity to use the Welsh language in the workplace with the support of the employer ultimately. So, that is something that I believe very, very strongly in. The scheme works and there is a real opportunity to develop it further, with further

ymhellach gyda buddsoddiad pellach investment as well.
hefyd.

[62] **Mr Tiplady:** Rwy'n cytuno 100 y cant â Gwilym yn fanna. Yr amser, wrth gwrs, yw'r peth. O ble mae'r amser yn dod? Sut y mae pobl yn cael eu rhyddhau i ddefnyddio'r amser yna? Ond rwy'n cytuno. Heb rywbeth o'r fath, allem ni ddim cael y cynnydd sylweddol sydd ei eisiau. Ond y tu fewn i'r flwyddyn sydd gyda ni'n barod—os oes lle yna; nid wyf yn credu fy hunain bod yna—mae'n rhaid edrych ar sut y gallem ni rhyddhau staff a sut y gallem ni annog pobl i fynd ar hyd y trywydd yna. Rwy'n credu bod hwnnw'n hollbwysig wrth edrych i gynllunio ar gyfer rhywbeth fel y cynllun sabothol.

Mr Tiplady: I agree 100 per cent with Gwilym there, but time, of course, is the thing. Where is the time going to come from? How are people going to be released to use that time? But I agree. Without such a scheme, we can't see the significant increase that is needed. But within the year that we have already—if there is room there; I don't think personally that there is—we need to look at how we are going to release staff and how we're going to encourage them to follow that route. I think that's vital as we look at planning for something like the sabbatical scheme.

[63] **Mr Jones:** Gadeirydd, os gallaf godi un pwynt arall: fel sefydliad sydd wedi bod ynghlwm â sefydlu'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol yn ddiweddar, rwyf yn teimlo fod lle i'r ganolfan hon yn awr, sydd yn arwain maes Cymraeg i oedolion, i ymgysylltu ei hun â'r holl weithgarwch sy'n digwydd yn yr ysgolion uwchradd ac yn y blaen fel bod dilyniant a chyfleon i'r athrawon hefyd ystyried cyrsiau dysgu o bell ac yn y blaen drwy'r ganolfan newydd hon. Rwy'n ymwybodol bod y ganolfan yn edrych ar sawl ffordd wahanol o gyflwyno'r Gymraeg i'r gweithle yn y dyfodol ac felly bydd cyfle i'r ganolfan honno hefyd rwy'n meddwl i gael mewnbwn yn y pendraw i'r modd y mae athrawon a

Mr Jones: Chair, if I can just add one further point: as an institution that was involved in the establishment of the National Centre for Learning Welsh recently, I do think that there is role for that centre, which is leading in Welsh for adults, to engage with all of the activities happening in the secondary schools and so on so that there is a continuum and an opportunity for teachers to consider distance learning courses and so on through this new centre. I'm aware that the centre is looking at a number of different ways of introducing the Welsh language into the workplace in future and there will be an opportunity therefore for that centre to have an input ultimately in the way

chynorthwyon dysgu yn datblygu'r that teachers and teaching assistants
Gymraeg. develop their skills.

[64] **Bethan Jenkins:** Mae gan Suzy **Bethan Jenkins:** Suzy has a brief
gwestiwn clou, os yw hynny'n iawn, question, if that's okay, Hannah.
Hannah.

[65] **Suzy Davies:** Yes. I'm going to ask you some questions about
progression later on, but with regard to the teachers—I'm not talking about
teachers who are either confident learners or already have Welsh-language
skills—who have taken the great psychological leap from a non-Welsh
background to really go for this and teach through the medium of Welsh, you
mentioned that there are issues of time and that the *cwrs sabothol* is
expensive. Where would you see the gaps in the continuum for the Welsh-
learner teacher themselves arising? Because somebody may come into this
with all the best intentions in the world and practicalities get in the way.
Apart from time, what do you think those barriers might be?

09:45

[66] **Mr Jones:** Os edrychwch chi ar **Mr Jones:** If you look at the Basque
Wlad y Basg, mae yna fuddsoddiad Country, there has been a substantial
sylweddol o ran amser ac adnoddau. investment in terms of time and
Wrth edrych yn ôl—mae'n rhwydd resources. Looking back—perhaps
edrych yn ôl, ond pan fyddem ni'n it's easy to look back, but when we're
paratoi athrawon i ddysgu yn y preparing teachers to teach through
Saesneg ond gydag elfen o Gymraeg the medium of English but with an
yng Nghymru, rydym ni wedi gadael element of Welsh in Wales, we have
yr athrawon i fod, i fynd ymlaen â'u left those teachers to carry on with
busnes eu hunain, heb yr their business, without this
hyfforddiant parhaus hwnnw. Yng continuous training. In the Basque
Ngwlad y Basg, mae yna hyfforddiant Country, there is continuous training
parhaus i'r athrawon hynny sy'n for those teachers who are teaching
dysgu'r iaith. through the medium of Basque.

[67] **Suzy Davies:** Ble mae hynny'n **Suzy Davies:** Where does this
digwydd? A ydy hyn yn digwydd yn yr happen? Does it happen in the
ysgolion eu hunain neu a oes yn schools themselves or do the
rhaid i'r athrawon ddod mas o'r ysgol teachers have to come out of school
i gael y cymorth yna? to get that support?

[68] **Mr Jones:** Wel, eto, wrth edrych ar y gwahanol systemau posibl yng Nghymru—. Mae yna strategaethau sirol, wrth gwrs, gan yr awdurdodau lleol. Mi ddylai hyn fod yn rhan o waith cefnogi'r siroedd, wedyn, yn y dosbarth ac ar draws y sir, mewn gwirionedd. Unwaith mae'r athrawon yn cael eu cymhwyso ac yn gadael y colegau i fynd i dysgu yna, rydych chi'n trosglwyddo'r awenau i'r awdurdod addysg lleol, mewn gwirionedd. Felly, mae angen, rwy'n teimlo, mwy o gydweithio rhwng y sefydliadau sy'n hyfforddi'r athrawon yn gychwynnol ac yna'r awdurdodau sydd yn cymryd y rôl o'u datblygu ymhellach.

Mr Jones: Well, again, looking at the different possible systems in Wales—. There are strategies on a county level, of course, with the local authorities. This should be part of supporting the county councils, then, in the classroom and across the county, in reality. Once the teachers are qualified and leave the colleges to go into teaching, then, really, you're transferring the reins to the local education authority. So, there is a need, I think, for more collaboration between the institutions that train the teachers initially and then the authorities that take on the role of developing them further.

[69] Mae gormod o raniadau yn y system ar hyn o bryd. Dylai fod yna gontinwwm hyfforddi lle mae pawb yn cydweithio'n llawer, llawer agosach. Felly, i ateb eich cwestiwn chi, fe ddylai fod yna hyfforddiant parhaus yn y dosbarth ond hefyd, drwy'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, dylai fod yna gyfle i ddysgu'r Gymraeg a chryfhau'r Gymraeg drwy ddulliau dysgu o bell hefyd. Mae angen i bobl weithio'n agosach gyda'i gilydd. Llawer mwy o gydweithio, tybiwn i—dyna'r ateb yn y pen draw.

There are too many gaps in the system. There should be a training continuum where people collaborate much more. So, to answer your question, there should be more CPD in the classroom but also, through the National Centre for Learning Welsh, there should be an opportunity to learn Welsh and strengthen the Welsh language through distance learning, for example. There is a need for people to work closer together. Much more collaboration, I would think—that's the answer, ultimately.

[70] **Suzy Davies:** Océ. Diolch.

Suzy Davies: Okay. Thank you.

[71] **Bethan Jenkins:** Hannah.

[72] **Hannah Blythyn:** One final question: do you have a view on the number of additional teachers to teach through the medium of Welsh that are going

to be needed in the long term to meet this objective?

[73] **Mr Tiplady:** Mae'n flin gyda fi, nid wyf yn gwybod faint y bydd eu heisiau. Ond fe allaf gredu, i gael 100,000 ychwanegol o siaradwyr bob 10 mlynedd, os oes lot o'r rheini drwy'r system addysg, mae'r nifer yn mynd i fod yn sylweddol. Ond mae'n flin gyda fi, nid oes gyda fi syniad faint.

Mr Tiplady: No, sorry, I don't know how many would be required. But I would have thought, to get an additional 100,000 Welsh speakers every 10 years, if much of that is through the education system, the number is going to be high. But I'm sorry, I don't have any idea of the exact number.

[74] **Mr Jones:** Nid oes gennyf innau chwaith, yn anffodus. Dim ond i nodi bod angen cynnydd sylweddol a'r unig ffordd yr ŷch chi'n mynd i sicrhau hynny o ran y sefydliadau a'r canolfannau a phwy bynnag sy'n cael eu hachredu yn y dyfodol yw targedau. Hynny yw, mae'r niferoedd wedi aros yn eithaf cyson ers 20 mlynedd a rhagor. Mae angen nawr newid gêr, a'r unig ffordd yr ydych chi'n mynd i wneud hynny, a mynnu fod y canolfannau sy'n cael eu hachredu yn gwneud hynny, yw targedu penodol.

Mr Jones: I don't know either, unfortunately. I just want to note that we need a significant increase and the only way that you're going to secure that in terms of the institutions and the centres and whoever is accredited in the future is to have targets. The numbers have remained quite stable for some 20 years and more. We now need a change of gear, and the only way that you can do that, and insist that the accredited centres do that, is through specific targeting.

[75] **Bethan Jenkins:** A fydddech chi eisiau cael trafodaeth ynglŷn â'r targedau yn hytrach na fod y Llywodraeth yn dweud wrthyich chi beth fyddai'r targed i chi? Er enghraifft, mae'r Mudiad Ysgolion Meithrin wedi dweud wrthym ni faint yn fwy o blant y byddai angen iddyn nhw allu gwireddu rhyw fath o darged. A fyddai gennych chi ryw fath o arbenigedd ynglŷn â faint, o fewn y capasiti ar hyn o bryd, y bydddech chi'n gallu gwneud heb fwy

Bethan Jenkins: Would you want to have a discussion about the targets rather than the Government telling you what the target would be for you? For example, Mudiad Ysgolion Meithrin have told us how many more children would be needed for them to be able to realise some sort of target. Would you have some expertise regarding how many, within the capacity you have at the moment, you could train with the money you have now? Or would you require

o arian? Neu a fyddai angen mwy o arian beth bynnag er mwyn i chi allu gwireddu rhyw fath o darged y byddai'r Llywodraeth yn rhoi arnoch chi?

more money in order for you to realise some sort of target that the Government would place on you?

[76] **Mr Jones:** Fe fyddem ni'n mawr obeithio fod y drafodaeth sydd wastad wedi bod rhwng y sefydliadau a'r Llywodraeth, neu wedi bod yn y gorffennol â'r cyngor cyllido, yn parhau, oherwydd, yn y pen draw, drwy gydweithio mae cyrraedd y nod, yn sicr.

Mr Jones: We would very much hope that the discussions that have always taken place between the institutions and the Government, or have been in the past with the funding council, would continue, because, ultimately, collaboration is the way we're going to achieve this.

[77] **Bethan Jenkins:** Ond, er enghraifft, rydych chi wedi ei ddweud nad oes targedau ar gyfer medru'r Gymraeg. A ydych chi wedi dweud hynny wrth y Llywodraeth ac wedi dweud hynny wrth Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru yn y gorffennol, am y ffaith nad oes yna darged?

Bethan Jenkins: But, for example, you've said there are no targets for people who can speak Welsh. Have you said this to the Government and have you said this to HEFCW in the past, about the fact that there isn't a target?

[78] **Mr Tiplady:** Ydym. Rydym wedi, fel sefydliad, gwneud hynny.

Mr Tiplady: As an institution, we have, yes.

[79] **Bethan Jenkins:** A beth yw'r ymateb, wedyn, ganddyn nhw?

Bethan Jenkins: And what's been their response to that?

[80] **Mr Jones:** Yn gyffredinol, rwy'n meddwl fy mod i'n iawn i ddweud nad yw'r cyngor cyllido, hyd yn hyn, wedi bod yn ffafrio targedau.

Mr Jones: Generally speaking, I think it's right to say that the funding council, so far, hasn't favoured targets.

[81] **Bethan Jenkins:** Pam?

Bethan Jenkins: Why?

[82] **Mr Jones:** Nid wyf yn hollol sicr. Gallwch ofyn iddyn nhw, felly. Ond, yn sicr, mae'n rhaid newid gêr. Os yw'r strategaeth yma i ddwyn

Mr Jones: I couldn't tell you. You'd have to ask them. But, certainly, we need a gear shift. If this strategy is to succeed, and if the Government

ffrwyth, ac os yw'r Llywodraeth am weld Cymru wirioneddol ddwyieithog, mae'n rhaid sicrhau mwy o athrawon sy'n gymwys i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Yr unig ffordd rydych chi yn mynd i newid sefydliadau unigol a chanolfannau unigol yw drwy osod targedau ychydig bach yn fwy uchelgeisiol na'r hyn sy'n digwydd ar hyn o bryd.

wants to see a truly bilingual Wales, then we must ensure that we have more teachers qualified to teach through the medium of Welsh. The only way you're going to change individual institutions and individual centres is by setting more ambitious targets than we currently have.

[83] **Bethan Jenkins:** Mae gan Jeremy gwestiwn clou cyn i ni symud ymlaen.

Bethan Jenkins: Jeremy has a brief question before we move on.

[84] **Jeremy Miles:** Jest ar y cwestiwn o dargedau, sut byddech chi'n gweld proffil y targedau yma? A ydych chi'n meddwl y byddai angen cynnydd yn syth i lefelau uwch o dargedu, neu a fydddech chi'n gweld cynnydd graddol yn digwydd dros gyfnod? A oes gyda chi rhywbeth mewn golwg ynglŷn â'r math o batrwm y byddai angen ei weld er mwyn cyflenwi'r ddarpariaeth sydd ei hangen?

Jeremy Miles: Just on this question of targets, how would you see the profile of these targets? Do you think there would be a need for an immediate increase to higher levels of targeting, or would you anticipate a gradual increase over a period of time? Do you have anything in mind about the sort of pattern that we would need to see in order to supply the provision that we need?

[85] **Mr Jones:** Bydd angen ymateb yn raddol i gychwyn tybiwn i, oherwydd yn amlwg mae angen digon o staff yn y sefydliadau sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, hynny yw, hyfforddi'r darpar athrawon drwy gyfrwng y Gymraeg. Felly, mae'n rhaid i'r newid fod yn raddol i gychwyn ond gyda'r nod, o fewn pump i 10 mlynedd, fod y canolfannau yma yn ganolfannau gwirioneddol ddwyieithog.

Mr Jones: We will need a gradual response initially, I think, because clearly you need enough staff in the institutions who are able to train prospective teachers through the medium of Welsh. So, the change has to be gradual initially but with the aim, within five or 10 years, that these centres should be truly bilingual centres.

[86] **Jeremy Miles:** Ocê. Diolch.

Jeremy Miles: Okay. Thank you.

[87] **Bethan Jenkins:** Diolch. Neil **Bethan Jenkins:** Thank you. Neil Hamilton.

[88] **Neil Hamilton:** My question follows on naturally from Suzy's line of questions a moment ago and it's really about the culture and mindset of local authorities and the education sector generally in Wales towards the provision of Welsh language education. I'd like to get your views on the variability that you've encountered in the course of your professional lives, not with the view of naming and shaming necessarily—identifying individual authorities that might be more or less open to the Government's stated objective and achieving it—but your general views on what more needs to be done either with local authorities or within your own sector of education in order to bring about what we all want to see by 2050.

[89] **Mr Jones:** Wel, mae angen symud ysgolion ar hyd y continwwm ieithyddol er mwyn cynyddu'r cyflenwad o leoedd ysgol cyfrwng Cymraeg. Mae hynny'n ffaith, ac felly rydw i'n meddwl bod lle gan y Llywodraeth i annog a chefnogi'r awdurdodau hynny sydd yn dymuno gweld hynny'n digwydd o fewn eu tiriogaeth nhw. Nid ydw i am fanylu ar unrhyw sir yn benodol, ond mae yna achosion yng Nghymru heddiw efallai lle y mae angen yr hwb yna ar yr awdurdodau ac ar yr ysgolion i newid. Felly, gydag ychydig bach yn fwy o gefnogaeth, rwy'n meddwl y bydd modd cael y maen i'r wal i'r cyfeiriad hwnnw, rwy'n meddwl. Ond, yn sicr, mae angen cefnogaeth ar yr awdurdodau hynny sydd yn barod i symud ysgolion ar hyd y continwwm.

Mr Jones: Well, we do need to move schools along the linguistic continuum if we are to increase the supply of Welsh-medium school places. That's a fact, and I think that the Government does have a role in encouraging and supporting those authorities that want to see that happening within their territories. I'm not going to name names or mention any counties, but there are cases in Wales today where perhaps they need that push, the authorities and the schools need that push for change. So, with a little more support, I think it would be possible to achieve our aims in this area. But, certainly, there needs to be support for those authorities who are ready to move schools along that continuum.

[90] **Mr Tiplady:** Dim ond i ategu hynny, os ydym ni'n mynd i ddyblu faint o siaradwyr Cymraeg sydd gyda ni, yn amlwg, mae'n rhaid bod

Mr Tiplady: I just want to endorse that. If we're going to double the number of Welsh speakers that we have then, clearly, there is a need for

cynnydd yn nifer yr ysgolion Cymraeg. Er mwyn gwneud hynny, mae eisiau anogaeth ar yr awdurdodau lleol i symud pethau ymlaen. Eto, liciwn i ddim nodi yn benodol unrhyw un, ond mae yn braf gweld y twf mewn addysg Gymraeg sydd wedi bod yng Nghaerdydd dros y blynyddoedd yna. Mae'r nifer yn cynyddu ac mae'n braf i'w weld.

an increase in the number of Welsh-medium schools. To do that, there is a need to encourage local authorities to move things on. Again, I wouldn't like to identify any authorities specifically, but it is great to see the growth in Welsh-medium education in Cardiff over the years. The numbers are increasing and it's great to see.

[91] **Neil Hamilton:** The other interesting question is the re-categorisation of schools—how you move along the continuum from being English language to bilingual, from bilingual to Welsh-medium—and the practical problems that are involved in that. I'd like to get your views on the situation as it is at the minute in terms of re-categorisation and what more we can do to speed that process along.

[92] **Mr Tiplady:** Nid oes gennyf i ddim profiad fy hun o gategoreiddio—dim ond rhywbeth allanol rwyf wedi'i weld yn digwydd. Ond, fel ymateb i'r cwestiwn y gofynnodd Jeremy, rhywbeth sy'n mynd i ddigwydd dros gyfnod yw e i ddechrau, fel symud categorïau ysgol i fod yn rhai dwyieithog. Nid ydyn nhw'n dargedau uchel, rwy'n credu, y gallwn ni eu cyrraedd dros nos—ond gallem ni efallai, fel rhan o'r targedau ychwanegol i athrawon, targedau ychwanegol i ysgolion, symud tuag at fynd ar hyd y continwwm. Felly, mae'n flin gyda fi—rwy'n rhywun o'r tu fas yn edrych i mewn. Rwy'n credu ei fod yn rhywbeth positif ond rhywbeth sy'n digwydd yn araf bach yw e, nid rhywbeth a fyddai'n gallu digwydd dros nos, os mai newid statws ysgol rŷm ni'n sôn amdano yn hytrach na chreu ysgolion newydd.

Mr Tiplady: I don't have any experience myself of categorisation—I've only seen something happening on an external level. But, in responding to the question that Jeremy asked, it's something that's going to happen over a period, initially, as is the re-categorisation of schools to be bilingual. They're not high targets that we can reach overnight—but, we could perhaps, as part of the additional targets for teachers, additional targets for schools, move towards going along the continuum. So, I apologise—I'm somebody from the outside looking in. I do think it's something that's positive, but it is happening quite slowly and it won't happen overnight, if it's changing the status of a school that we're talking about rather than creating new schools.

[93] **Mr Jones:** Yn sicr, mae angen arweiniad pellach ynghylch sut i gategoreiddio ysgolion o ran iaith. Rwy'n meddwl bod hynny'n cael ei nodi'n glir yn adroddiad Comisiynydd y Gymraeg. Hefyd, mae'n codi cwestiynau difrifol efallai am y modd y mae ysgolion nad ydyn nhw yn rhai cyfrwng Cymraeg yn cyfrannu yn y pen draw i'r strategaeth Gymraeg sy'n cael ei datblygu gan y Llywodraeth. Hynny yw, rŷm ni'n sôn bod y Gymraeg yn perthyn i ni i gyd ac mae'r Gymraeg yn perthyn i bawb; mae hynny'n allweddol, allweddol bwysig. Felly, mae rôl gan bob ysgol, beth bynnag yw ei chefnidir ieithyddol hi, i gyfrannu at greu y Gymru ddwyieithog yma rydym ni'n ei deisyfu. Felly, efallai bod angen ychydig bach yn fwy o sylw ar y modd y mae ysgolion yn cael eu categororeiddio, achos weithiau mae hynny, yn amlwg, yn gallu achosi gwrthdaro lle nad oes angen y gwrthdaro hwnnw mewn gwirionedd.

Mr Jones: Certainly, there needs to be further guidance on how to categorise schools in linguistic terms. I think that's clearly noted in the Welsh Language Commissioner's report. Also, it raises some serious questions perhaps about the way in which non-Welsh-medium schools contribute ultimately to the Welsh language strategy being developed by Government. We always say that the Welsh language belongs to all of us, and that's true and it's crucially important. Therefore, every school, whatever its linguistic background, has a role in contributing towards this bilingual Wales that we all want to see. So, perhaps we need to focus a little more on the way schools are categorised, because on occasion that can cause conflict where there is no need for that conflict, if truth be told.

[94] **Bethan Jenkins:** Lee, did you want to come in on that one?

[95] **Lee Waters:** Yes, I'd just like to press you a little further on that final point. What role do you think that non-Welsh-speaking schools have in reaching this target?

[96] **Mr Jones:** I fynd nôl at y pwynt allweddol, mae'r Gymraeg yn perthyn i bawb. Beth bynnag yw'n cefndir ni, rydym yn digwydd bod yn byw yng Nghymru, ac mae angen i bawb deimlo balchder ein bod yn gallu siarad o leiaf dwy iaith—gobeithio,

Mr Jones: To return to the crucial point, the Welsh language belongs to all of us. Whatever our background, we live in Wales, and everyone should feel pride that we have at least two languages—hopefully, we could speak three, four or five languages—

tair, pedair neu bum iaith—oherwydd, yn y pen draw, mae'n gryfder allweddol i bob unigolyn os gallwn ni siarad a chyfathrebu mewn mwy nag un iaith.

because, ultimately, it is a strength for individuals to be able to communicate through the medium of more than one language.

[97] O safbwynt y rheini nad ydynt yn siarad Cymraeg, mae'n broses o annog a pherswadio, a dangos bod y Gymraeg nid yn unig yn sgîl i arwain at waith a chyflogaeth yn y pen draw, ond mae'n arwain at bod yn rhan o gymuned—yn rhan o gymuned ddwyieithog naturiol yng Nghymru. Drwy berthyn i gymuned, mae'n llawer haws cymhathu'r gymuned honno os ych chi'n digwydd bod yn gallu cyfrannu yn yr ieithoedd sy'n cael eu siarad yn y gymuned honno. Felly, mae'n broses o addysgu, ac mae'n broses o annog. Mae angen gwneud hynny mewn dulliau sensitif ond cadarn hefyd. I fynd nôl at strategaeth y Llywodraeth yn y pen draw—ac rydym ni'n dau yn llwyr gytûn bod y strategaeth honno'n symud i'r cyfeiriad cywir—mae angen dod â Chymru gyfan gyda ni i gefnogi'r strategaeth honno. Mae hynny'n digwydd ar lefel genedlaethol, ond mewn cymunedau hefyd lle mae'r Gymraeg yn fyw ac yn cael ei chlywed o ddydd i ddydd.

In terms of those who don't speak Welsh, then it is a process of encouragement and persuasion, and demonstrating that the Welsh language is not only a skill that can lead to opportunities in the workplace and can lead to employment, but that it leads to being part of a naturally bilingual community in Wales. By belonging to that community, it's far easier to assimilate into that community if you can contribute in the languages spoken in that community. So, it's a process of education and encouragement. That needs to be done in sensitive ways, but also it needs to be done robustly. If we return to the Government's strategy—and I think that we are both entirely agreed that that strategy is moving in the right direction—we do need to bring all of Wales with us on that journey to support the strategy. That happens at a national level, but also within communities where the Welsh language is a living language and is heard on a day-to-day basis.

[98] **Lee Waters:** Is it your understanding of the concept of moving along the continuum that all schools will, at some point, become Welsh-medium schools, and when do you think that might happen? How long do you think that would take?

[99] **Mr Jones:** Ni fyddaf yn bodoli, yn sicr. Ni fyddaf yn fyw bryd hynny, gan y bydd hi'n broses hir. Ond, yn y pen draw, dyna'r nod—hynny yw, pob ysgol yng Nghymru yn sicrhau bod pob plentyn yn gadael yn gwbl, gwbl hyddysg ac yn hyderus yn y Saesneg a'r Gymraeg, a bod yna falchder cenedlaethol mewn dwyieithrwydd. Dyna'r nod yn yr hir, hirdymor. Nid yw hynny'n mynd i ddigwydd dros nos. Bydd yn arwain at gryn dipyn o waith o ran adeiladu ar y sylfeini cadarn sydd eisoes wedi digwydd ers blynnyddoedd lawer mewn sawl rhan o Gymru. Mae angen y cysondeb hwnnw. Mae gwahanol ardaloedd yng Nghymru mewn mannau gwahanol ar hyd y daith, ac mae'n rhaid parchu hynny. Bydd ambell ardal yn gallu symud ymlaen yn gynt nag ambell ardal arall. Yn y pen draw, mae hyn yn dod yn ôl at strategaethau lleol yr awdurdodau addysg. Byddwch yn cwrdd â rhai o'r cynrychiolwyr hynny yn hwyrach heddiw. Rwy'n tybio bod rôl allweddol bwysig ganddyn nhw i gefnogi'r strategaeth.

Mr Jones: I won't be here at that time, certainly. It's going to be a very long process. But, ultimately, that's the aim—that every school in Wales ensures that every child in Wales leaves completely confident in English and Welsh, and that there is a national pride in bilingualism. That is the very long-term aim. That's not going to happen overnight. It's going to lead to quite a lot of work, building on the strong foundations that have already been laid in Wales. There is a need for that consistency. Different areas of Wales are in different places along this journey, and there is a need to respect that. Some areas will be able to move forward quicker than other areas. Ultimately, it comes back to the local strategies of the education authorities. You are meeting some of those representatives later today. I think they have a key role in supporting that strategy.

[100] **Bethan Jenkins:** Maen nhw wedi tynnu mas—

Bethan Jenkins: They have withdrawn, unfortunately—

[101] **Dai Lloyd:** Sydd yn bwynt arall.

Dai Lloyd: Which is another point.

[102] **Bethan Jenkins:** Sydd yn bwynt arall, yn hollol. Mae gan Suzy gwestiwn penodol ar y thema yma.

Bethan Jenkins: Which is another point altogether. Suzy has a specific question on this theme.

[103] **Suzy Davies:** Ie, ar y pwynt gwreiddiol: rydych chi'ch dau wedi sôn am gefnogaeth ac anogaeth i

Suzy Davies: Yes, on the original point: you have both mentioned support and encouragement for local

awdurdodau lleol. O ble y dylai hynny ddod? A ydym yn sôn am gonsortia neu'r Llywodraeth yn uniongyrchol? A yw'r capasiti yn y ddau yna yn barod i'ch helpu chi gyda'r nod yna? Ac a yw'r nod yn ymestyn hefyd i'r penaethiaid, neu dim ond yr awdurdodau lleol eu hunain?

authorities. Where should that come from? Are we talking about the consortia, or should it come directly from the Government? Is the capacity there in order to assist you in that aim? Also, does it extend to headteachers, or just to local authorities themselves?

[104] **Mr Tiplady:** Wel, fy hun, rwy'n teimlo bod hyn yn gorfod dod o'r Llywodraeth i ddechrau. Mae'n gorfod bod yn neges glir ynglŷn â'r datblygiad—ac hefyd helpu ardaloedd i ddatblygu a helpu ysgolion i ddatblygu. Fel y dywedodd Gwilym, mae gwahanol rhannau o Gymru mewn llefydd gwahanol. Byddai'n annheg disgwyl i ysgolion mewn rhai rhannau o Gymru ymateb fel y byddai ysgolion mewn ardaloedd traddodiadol Gymraeg. Felly, yn gyntaf, mae'n rhaid i hyn ddod o'r Llywodraeth, ac mae'n rhaid iddo ddod mewn modd cefnogol, adeiladol gyda rhyw fath o strwythur hirdymor ynglŷn â datblygiad. Rwy'n cytuno 100 y cant â Gwilym: dyna sy'n dod â phawb â'i gilydd, ac yn sicrhau bod pawb yn teimlo'n rhan o'r datblygiad, ac yn deall pam ei fod yn digwydd, pam ei fod yn bwysig, a pham ei fod o fudd i bawb—nid dim ond y bobl hynny yn yr ysgolion Cymraeg, ond beth gall y Gymraeg ei chynnig i bobl mewn ysgolion sydd ar hyn o bryd yn ysgolion uniaith Saesneg.

Mr Tiplady: Personally, I think it has to come from the Government, to start with. It has to be a clear message in terms of development—and also, helping areas to develop and helping schools to develop. As Gwilym said, there are different parts of Wales on different levels. It would be unfair to expect schools in some parts of Wales to respond in the same way as schools in more traditionally Welsh-speaking areas. So, first of all, it has to come from the Government, and it has to come in a supportive and constructive way, with some sort of long-term structure in terms of development. I agree 100 per cent with Gwilym: that's what brings people together and makes people feel part of that development, and that they understand why it is happening, why it is of benefit for everybody—not only those in Welsh-medium schools, but what the Welsh language can offer those people who are in English-medium schools at the moment.

[105] **Mr Jones:** Byddwn yn ategu hynny. Mae'n rhaid i'r cyfarwyddyd ddod o du'r Llywodraeth yn y

Mr Jones: I endorse that. The direction has to come from Government, ultimately. There is a

pendraw. Mae angen monitro bod y gweithredoedd yma'n digwydd ar lawr gwlad, a bod y polisi yn cael effaith gadarnhaol mewn siroedd penodol, ac yna ysgolion penodol, wrth i'r trafodaethau hyn ddigwydd. Dyna'r unig ffordd, hyd y gwelaf i. Ni wnaiff bethau ddim newid oni bai bod cyfarwyddyd pendant o du'r Llywodraeth.

need to monitor in order to ensure that these activities are happening on the ground, and that the policy is having a positive impact in specific counties, and then in specific schools, while these discussions are ongoing. That's the only way that things can change. Things won't change unless there is clear direction provided by Government.

[106] **Bethan Jenkins:** Jeremy.

Bethan Jenkins: Jeremy.

[107] **Jeremy Miles:** Gwnaethom glywed yr wythnos diwethaf gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol eu bod nhw'n gweld, fel rhan o'u rôl nhw, y broses o normaleiddio'r Gymraeg, a bod y Gymraeg yn rhan o'r siwrnai addysg i fyd addysg uwch, fel rhan normal o fywyd. Y cwestiwn hwn o normaleiddio yw'r ail biler, os caf i ddefnyddio'r gair hwnnw, yn y strategaeth.

Jeremy Miles: What we heard last week from the Coleg Cymraeg Cenedlaethol was that it sees as part of its role the process of normalising the Welsh language, and that the Welsh language is part of the education journey to higher education, as a normal part of life. This question of normalisation is the second pillar, perhaps, if I can use that word, in the strategy.

10:00

[108] Hynny yw, mae addysg, ond hefyd y cwestiwn o wneud y Gymraeg yn iaith yr iard, iaith y gymuned ac iaith y stryd, ac ati. A ydych chi'n gweld, yn eich sefydliadau chi, rôl iddyn nhw yn y broses hynny—ynghyd ag addysgu pobl i ddysgu trwy'r Gymraeg—rôl i'w chwarae yn y broses honno o normaleiddio'r Gymraeg?

There is education, but also the question of making the Welsh language the language of the yard and the street, for example. Do you see in your institutions a role for them in that process—as well as teaching people to learn through the medium of Welsh—that there's also a role to play in that process of normalising the Welsh language?

[109] **Mr Tiplady:** Mae'r gwaith y mae'r coleg Cymraeg wedi ei wneud gyda ni fel sefydliad dros y

Mr Tiplady: The work that the coleg Cymraeg have done with us as an institution over the past few years

blynyddoedd diwethaf wedi bod yn wych. Mae wedi bod yn anhygoel, mae'n rhaid imi ddweud. Rydym ni wedi dyblu faint sy'n astudio trwy gyfrwng y Gymraeg gyda ni dros y pum mlynedd diwethaf, o ganlyniad i'r gwaith y mae'r coleg Cymraeg wedi ei wneud. Mae'r continwwm ieithyddol yna'n un hollbwysig, ac wrth inni weithio fel sefydliad, a gweithio gyda'r coleg Cymraeg o ran ble rydym ni'n marchnata ein cyrsiau, mae pobl yn dweud trwy'r amser bod eisiau mynd yn ifancach ac ifancach. Mae dewisiadau ynglŷn â pha ysgol y mae pobl yn eu gwneud—ysgolion cynradd ac uwchradd—yn aml yn cael eu gwneud achos beth maen nhw'n gweld y gallan nhw gyrraedd yn y diwedd: pa gyrsiau sydd ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg a pha swyddi sydd ar gael.

[110] Un o'r pethau rydym ni'n ei weld nawr yw, er bod mathemateg, y gwyddorau a phethau fel hyn ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg, mae o hyd y cysyniad yna'n bodoli nad ydych chi'n astudio'r gwyddorau yn y Gymraeg ac nad ydych chi'n gallu gwneud mathemateg trwy gyfrwng y Gymraeg, er bod y cyfleon yna. Felly, mae dyletswydd arnom ni fel prifysgolion i wneud pobl yn fwy ymwybodol o'r continwwm ieithyddol yna sy'n parhau atom ni, ond hefyd cydweithio gyda'r Coleg Cymraeg er mwyn sicrhau bod y marchnata yna'n digwydd fel bod rhieni, wrth iddyn nhw wneud y penderfyniadau, neu ysgolion wrth iddyn nhw ddatblygu ar

has been wonderful. It's been incredible. We've doubled the numbers studying through the medium of Welsh over the past five years as a result of the work of the coleg Cymraeg. The linguistic continuum is crucially important and, as we work as an institution and work with the coleg Cymraeg in terms of where we market our courses, then people constantly tell us that we need to target at an earlier and earlier stage. The choices in terms of schools, in primary and in secondary, are often made in terms of what they believe they can achieve ultimately, what courses are available through the medium of Welsh and what jobs are available at the end of education.

One of the things that we see now is, although maths and sciences are available through the medium of Welsh, there's still that concept that you shouldn't study sciences through the medium of Welsh, or you shouldn't study maths through the medium of Welsh, although the opportunities are there. So we, as universities, are duty bound to make people more aware of the linguistic continuum that continues through to universities, but also in working with the Coleg Cymraeg in order to ensure that that marketing happens effectively, so that parents, as they make these choices, or the schools, as they develop along the journey, do

hyd y daith, yn sylwi bod yna gyfleoedd addysg uwch ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg sy'n mynd i arwain, wedyn, at swyddi ar ôl hynny.

understand that there are HE opportunities available through the medium of Welsh, which will then lead to jobs, ultimately.

[111] **Mr Jones:** Well i fi ddatgan diddordeb; rydw i'n un o gyfarwyddwyr y Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Yn sicr, mae'r corff hwnnw wedi gwneud gwahaniaeth arwyddocaol iawn i'r Gymraeg o fewn addysg uwch yn ystod y cyfnod byr mae e wedi bodoli. O safbwynt normaleiddio'r Gymraeg, wedyn, o safbwynt ein sefydliad ni, yn sicr o weithio ar gampws Caerfyrddin, rydym ni ar fin sefydlu canolfan gwasanaethau Cymraeg a fydd yn cyflwyno modylau dewisol i holl fyfyrwyr y brifysgol ym maes y Gymraeg a'ch gyrfa a'r Gymraeg o fewn cyd-destun dwyieithog a'r gweithle dwyieithog. Hynny yw, bydd pob un o'n myfyrwyr ni yn cael cyfle cyn graddio i astudio un o'r modylau hynny, a fydd, gobeithio, yn codi eu hymwybyddiaeth nhw o'r gweithle dwyieithog ac yn sicrhau eu bod nhw'n gadael y brifysgol yn barod i weithio mewn cyd-destun lle mae yna fwy nag un iaith, boed yma yng Nghymru neu unrhyw fan arall yn y byd. Mae'r elfen honno yn bwysig iawn, iawn wrth eu paratoi nhw ar gyfer byd gwaith.

